Datganiad i'r Wasg

Chwefror 2012

Myfyrwraig o Wrecsam yn cyrraedd y rhestr fer mewn cystadleuaeth ddylunio genedlaethol

Mae myfyrwraig o Wrecsam ar restr fer y rownd derfynol mewn cystadleuaeth ddylunio a lansiwyd gan Chwarae Teg, asiantaeth datblygu economaidd ar gyfer menywod.

Lansiwyd Cystadleuaeth Ddylunio Chwarae Teg ledled Cymru ym mis Hydref. Yr her oedd i fyfyrwragedd celf a dylunio greu darn gwreiddiol o waith gan ddefnyddio logo'r sefydliad i gynrychioli thema chwarae teg i fenywod. Roedd gofyn i'r ymgeiswyr ail-ddehongli'r logo sy'n cynnwys rhubanau gwyrdd a phorffor y mudiad Swffragét.

Mae Brogan Kingsley, 21, sy'n astudio dylunio ym Mhrifysgol Glyndŵr, yn ymuno â phedair myfyrwraig o Goleg Penybont yn rownd derfynol y gystadleuaeth. Cyhoeddir enw enillydd y gystadleuaeth ynghyd â'r ail a'r drydedd mewn derbyniad i agor arddangosfa 20fed pen-blwydd Chwarae Teg ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth.

Mae Brogan yn gobeithio ennill y brif wobr am ei chais, sy'n dangos menywod yn dawnsio awyr, gan siglo ar y rhubanau Swffragét. Ond fel un a gyrhaeddodd y rownd derfynol, gall Brogan edrych ymlaen at weld ei gwaith wedi'i arddangos yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe am dri mis o 9 Mawrth.

"Dw i wrth fy modd yn cyrraedd y rhestr fer," meddai. "Roedd brîff diddorol iawn i'r gystadleuaeth ac roedd yn gyfle i mi ymchwilio i hanes y mudiad Swffragét a dysgu mwy amdano. Y brif ysbrydoliaeth oedd cynrychioli pwysigrwydd menywod yn estyn allan i gefnogi ei gilydd. Hefyd, roeddwn i eisiau creu cymariaethau rhwng sgil, cyd bwysedd a chryfder y dawnswyr a'r gwerthoedd y teimlaf fod Chwarae Teg yn eu hyrwyddo."

Yn ogystal â chael ei gwaith wedi'i arddangos fel rhan o'r arddangosfa 20fed pen-blwydd, bydd yr enillydd hefyd yn derbyn gwobr ariannol o £100.

Llongyfarchwyd Brogan gan ei darlithydd, Stuart Cunningham, arweinydd academaidd Diwydiannau Creadigol, Cyfryngau, Perfformio a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Glyndŵr: "Ar ran Prifysgol Glyndŵr, hoffwn longyfarch Brogan ar ei henwebiad. Mae llwyddiant Brogan yn arwydd o'i thalent, ei phenderfyniad a'i chreadigrwydd a dymunwn bob llwyddiant iddi yn rownd derfynol y gystadleuaeth."

Ychwanegodd Katy Chamberlain, prif weithredwr Chwarae Teg: "Roedd safon ceisiadau'r gystadleuaeth ddylunio yn eithriadol o uchel, a gallwch eu gweld nhw i gyd ar wefan Chwarae Teg. Mae rhai dehongliadau gwych o'r brîff wedi cofleidio neges chwarae teg yn llwyr. Pob lwc i bob un o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol."

DIWEDD

Ymholiadau pellach gan y cyfryngau – cysylltwch â Rachel Mortell neu Caroline Holmes yn Working Word ar 02920 646840 neu e-bostiwch rachel.mortell@workingword.co.uk/caroline.holmes@workingword.co.uk